



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|--|
| TEITL | Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| DYDDIAD | 19 Rhagfyr 2018 |
| GAN | Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig |

Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Mae Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn gwneud diwygiadau i'r dair Ddeddf Seneddol sy'n gysylltiedig â gwastraff, 14 o Rheoliadau a Phenderfyniadau yr UE sy'n gysylltiedig â gwastraff a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, fel bod modd parhau i'w gweithredu fel cyfraith yr UE ar gadw o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn dirymu rhywfaint o'r ddeddfwriaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r UE sy'n gysylltiedig â gwastraff nad oes yn rhaid ei gadw mewn cyd-destun domestig, wedi ymadael.

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio Deddfwriaeth yr UE wedi'i Diwygio Rheoliadau

1. Penderfyniad y Comisiwn (EU) 1103/2010 sy'n sefydlu, yn unol â Chyfarwyddeb 2006/66/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, y rheolau o ran labelu capasiti bateris a chronaduron cludadwy eilaidd (ailwefru) a modurol
2. Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 333/2011 sy'n sefydlu meini prawf i benderfynu pryd fydd mathau penodol o fetal sgrap yn peidio â bod yn wastraff o dan Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor
3. Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 493/2012 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfrifo effeithlonrwydd ailgylchu prosesau ailgylchu gwastraff batris a chronaduron
4. Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1179/2012 i sefydlu meini prawf wrth benderfynu pryd y mae gwydr gwastraff yn peidio â bod yn wastraff o dan Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor
5. Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 715/2013 sy'n sefydlu y meini prawf wrth benderfynu pryd y bydd copr gwastraff yn peidio â bod yn wastraff o dan Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor

Penderfyniadau

1. Penderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraff yn unol ag Erthygl 1(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraff peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus.
2. Penderfyniad y Comisiwn 2001/171/EC i sefydlu amodau ar gyfer rhanddirymiad deunydd pacio gwydr mewn perthynas â'r lefelau dwysedd trwm o fetel a sefydlwyd yng Nghyfarwyddeb 94/62/EC ar ddeunydd pacio a gwastraff pacio.
3. Penderfyniad y Cyngor 2003/33/EC yn sefydlu meini prawf a gweithdrefnau ar gyfer derbyn gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.
4. Penderfyniad y Comisiwn 2009/292/EC yn sefydlu'r amodau ar gyfer rhanddirymu blychau plastig o ran y lefel uchel o ddwysedd metal a sefydlwyd yng Nghyfarwyddeb 94/62/EC ar ddeunydd pacio a gwastraff pacio.
5. Penderfyniad y Comisiwn 2009/335/EC ar ganllawiau technegol ar gyfer sefydlu y gwarant ariannol yn unol â Chyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu.
6. Penderfyniad y Comisiwn 2009/337/EC ar y diffiniad ar gyfer y meini prawf ar gyfer dosbarthu cyfleusterau gwastraff yn unol ag Atodiad III o Gyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu.
7. Penderfyniad y Comisiwn 2009/359/EC i gwblhau y diffiniad o wastraff anadweithiol wrth weithredu Erthygl 22(1)(f) o Gyfarwyddeb 2006/21/EC o ran Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu.
8. Penderfyniad y Comisiwn 2009/360/EC gan gwblhau'r gofynion technegol ar gyfer nodweddu gwastraff a osodwyd gan Gyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu.
9. Penderfyniad y Comisiwn 2011/753/EU yn sefydlu rheolau a dulliau cyfrifo ar gyfer dilysu ein bod yn cydymffurfio â'r targedau a bennwyd yn Erthygl 11(2) o Gyfarwyddeb 2008/98/EC.

Deddfwriaeth Ddomestig wedi'i Diwygio

1. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
2. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
3. Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003
4. Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989

Dirymiadau

1. Rheoliad gan y Comisiwn (EU) Rhif 1357/2014 yn disodli Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol.
2. Rheoliad y Cyngor (CE) 2017/997 sy'n diwygio Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/98/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch yr eiddo peryglus HP 14 'Ecotoxic'
3. Mae hefyd yn diwygio penderfyniadau canlynol y CE ar wastraff:
4. Penderfyniad y Comisiwn 76/431/EEC i sefydlu Pwyllgor ar Reoli Gwastraff.
5. Penderfyniad y Comisiwn 94/741/EC ynghylch holiaduron ar gyfer adroddiadau Aelod-wladwriaethau ar weithredu Cyfarwyddebau penodol yn y sector gwastraff.
6. Penderfyniad y Comisiwn 97/129/EC sy'n sefydlu'r system adnabod ar gyfer deunydd pacio yn unol â Chyfarwyddeb Senedd Ewrop a Chyfarwyddeb y Cyngor 94/62/EC ar ddeunydd pacio a gwastraff pacio.

7. Penderfyniad y Comisiwn 97/622/EC ynghylch holiaduron ar gyfer adroddiadau Aelod-wladwriaethau ar weithredu Cyfarwyddebau penodol yn y sector gwastraff.
8. Penderfyniad y Comisiwn 2000/738/EC ynghylch holiaduron ar gyfer adroddiadau Aelod-wladwriaethau ar weithredu Cyfarwyddeb 1999/31/EC ar roi gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.
9. Penderfyniad y Comisiwn 2001/753/EC ynghylch holiaduron ar gyfer adroddiadau Aelod-wladwriaethau ar weithredu Cyfarwyddeb 2000/53/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gerbydau diwedd oes.
10. Penderfyniad y Comisiwn 2002/151/EC ar y gofynion sylfaenol ar gyfer y dystysgrif ddifrodi a gyhoeddwyd yn unol ag Erthygl 5(3) o Gyfarwyddeb 2000/53/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gerbydau diwedd oes.
11. Penderfyniad gan y Comisiwn 2003/138/EC sy'n sefydlu safonau codio cydrannau a deunyddiau ar gyfer cerbydau yn unol â Chyfarwyddeb 2000/53/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cerbydau ar ddiwedd eu hoes.
12. Penderfyniad y Comisiwn 2004/249/EC ynghylch holiaduron ar gyfer adroddiadau Aelod-wladwriaethau ar weithredu Cyfarwyddeb 2002/96/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar offer trydanol ac electronig gwastraff.
13. Penderfyniad y Comisiwn 2005/270/EC sy'n sefydlu'r fformat sy'n gysylltiedig â system cronfa ddata yn unol â Chyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 94/62/EC ar ddeunydd pacio a gwastraff pacio.
14. Penderfyniad y Comisiwn 2005/293/EC sy'n gosod rheolau manwl ar fonitro'r targedau aildefnyddio/adfer ac aildefnyddio/ailgylchu a bennwyd yng Nghyfarwyddeb 2000/53/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gerbydau ar ddiwedd eu hoes.
15. Penderfyniad y Comisiwn 2005/369/EC sy'n gosod y rheolau ar gyfer monitro i ba raddau y mae Aelod-wladwriaethau yn cydymffurfio a sefydlu fformatau data at ddibenion Cyfarwyddeb 2002/96/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar offer trydan ac electronig gwastraff.
16. Penderfyniad y Comisiwn 2007/151/EC gan ddiwygio Penderfyniad 94/741/EC a 97/622/EC o ran yr holiaduron ar gyfer yr adroddiad ar weithredu Cyfarwyddeb 2006/12/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff ac ar weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus.
17. Penderfyniad y Comisiwn 2008/350/EC ar reolau Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban ynghylch caniatáu eithriadau ar gyfer ymrwymadau a sefydliadau sy'n adfer gwastraff peryglus o dan Erthygl 3 Cyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC.
18. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2008/763/EU sydd, yn unol â Chyfarwyddeb 2006/66/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, yn fethodoleg gyffredin ar gyfer cyfrifo gwerthiant blynyddol bateris cludadwy a chronaduron i ddefnyddwyr.
19. Penderfyniad y Comisiwn 2009/358/EC ar gysoni, trosglwyddo gwybodaeth yn rheolaidd a'r holiadur y cyfeirir ato yn Erthyglau 22(1)(a) ac 18 o Gyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu.
20. Penderfyniad y Comisiwn 2009/851/EC sy'n sefydlu holiadur ar gyfer adroddiadau Aelod-wladwriaethau ar weithredu Cyfarwyddeb 2006/66/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fateris a chronaduron a bateris a chronaduron gwastraff.
21. Penderfyniad y Cyngor (EU) 2015/1156 ar y safbwynt i'w fabwysiadu, ar ran yr Undeb Ewropeaidd, o fewn Cyd-Bwyllgor yr Ardal Ewropeaidd Economaidd ynghylch newidiadau i Atodiad II (Rheoliadau, safonau, profi a thystysgrif technegol) i Gytundeb yr Ardal Ewropeaidd Economaidd(Bateris a Chronaduron).

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol mewn perthynas â gwastraff. Ar wahân i reoliadau sy'n gysylltiedig â safonau a diogelwch cynnyrch a safonau a gofynion technegol yn gysylltiedig â chynnyrch, sy'n faterion sydd wedi'u cadw yn ôl, mae'r meysydd eraill sy'n gysylltiedig â gwastraff wedi'u datganoli.

Caiff newidiadau eu gwneud i dair Deddf Seneddol sy'n gysylltiedig â gwastraff, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003 a Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989, a nifer o Reoliadau a Phenderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwastraff.

Oherwydd amgylchiadau eithriadol ymadael â'r UE, y tro hwn, cytunwyd y gellid gwneud y diwygiadau perthnasol i Offeryn Statudol y DU.

Diben y diwygiadau

Diben yr OS hwn (sy'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol) yw sicrhau bod cyfreithiau'r UE sy'n cael eu cadw yn parhau i weithredu'n effeithiol ac i gywiro unrhyw ddiffygion eraill sy'n codi o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Bydd yr offeryn hwn yn mynd i'r afael a diffygion yng nghyfraith yr UE sydd wedi'i throsi a elwir yn gyfraith yr UE wedi'i chadw ac i sicrhau diogelwch o ran: bod bateris a chronaduron gwastraff, meini prawf diwedd gwastraff, gwastraff pecynnu, tystysgrif difrodi cerbydau ar ddiwedd eu hoes, meini prawf derbyn tirlenwi, rheoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, a dulliau cyfrifo ar gyfer dilysu cydymffurfio â thargedau ailgylchu yn cael eu cynnal ac yn parhau i gael eu gweithredu unwaith y bydd y Deyrnas Unedig wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, sy'n nodi effaith y diwygiad hwn i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/bQ6Qmvky>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau I Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990; Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003 a Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989